Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd**

**Environment and Sustainability Committee**

Alun Davies AC
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a
Bwyd
Llywodraeth Cymru

24 Mehefin 2014

Annwyl Alun

**Gwaharddiad ar ddefnyddio nofrwydi**

Rydym wedi cael gwybod am gynnig a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer gwaharddiad llwyr ar y defnydd o'r holl nofrwydi o fewn pysgodfeydd yr UE.

O ystyried y pryderon sylweddol a godwyd gan y sector pysgodfeydd yng Nghymru am effeithiau posibl y cynnig ar y diwydiant, rydym yn dymuno rhoi ystyriaeth ddyledus i'r mater.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ysgrifennu atom yn amlinellu safbwynt Llywodraeth Cymru ar y cynigion a manylion y sylwadau yr ydych wedi'u gwneud hyd yn hyn i Lywodraeth y DU, fel yr Aelod-wladwriaeth, ac yn uniongyrchol i'r Comisiwn Ewropeaidd.

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar am ymateb erbyn 9 Gorffennaf.

Yn gywir,

**Alun Ffred Jones AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd